CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

Castell Brychan, ABERYSTWYTH, Ceredigion SY23 2JB
T 01970 624151 E castellbrychan@llyfrau.cymru llyfrau.cymru gwales.com ffolio.cymru

Prif Weithredwr/Chief Executive: Helgard Krause

PENODI AELODAU I WASANAETHU AR IS-BWYLLGORAU YMGYNGHOROL

MANYLION A CHEFNDIR I YMGEISWYR

Y CEFNDIR

Y mae'r Cyngor Llyfrau'n elusen gofrestredig sy'n cefnogi'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru. Y mae'n darparu nifer o wasanaethau arbenigol (ym meysydd golygu, dylunio, marchnata a dosbarthu) gyda golwg ar wella safonau cynhyrchu a chyhoeddi llyfrau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Er bod nifer o sefydliadau'n ymwneud ag agweddau ar gyhoeddi ym maes addysg a'r celfyddydau, nid oes unrhyw sefydliad arall yng Nghymru sy'n ymwneud â holl ystod maes cyhoeddi, o lawysgrif yr awdur i ddosbarthu a hybu gwerthiant.

Y mae gan y Cyngor Llyfrau staff o 36, y rhan fwyaf ohonynt yn gweithio mewn adrannau arbenigol sy'n cynnig gwasanaethau i'r fasnach lyfrau. Yr adran fwyaf yw'r Ganolfan Ddosbarthu sy'n cynnig gwasanaeth cyfanwerthu i gyhoeddwyr a llyfrwerthwyr. Yn wahanol i weddill gwaith y Cyngor, y mae'r Ganolfan, sydd â throsiant o £4 miliwn gros (£2.7 miliwn net), yn hunangynhaliol ac nid yw'n derbyn unrhyw gymorth o'r pwrs cyhoeddus. Mae'r Cyngor yn derbyn £3.4m o arian nawdd gan Lywodraeth Cymru a'r rhan fwyaf o hwnnw yn cael ei ddosbarthu'n uniongyrchol i'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru – £1.5m i gyhoeddwyr Cymraeg a £620k i gyhoeddwyr Saesneg. Pwrpas y grantiau yw sicrhau amrywiaeth a safon y cynnyrch sydd ar gael i ddarllenwyr yng Nghymru o ran llyfrau a chylchgronau i oedolion a phlant fel ei gilydd. Mae'r Is-bwyllgorau Datblygu Cyhoeddi yn chwarae rhan allweddol wrth osod cyfeiriad ar gyfer y gwariant hwn a'i oruchwylio.

Mae pencadlys y Cyngor Llyfrau yng Nghastell Brychan, Aberystwyth. Lleolir y Ganolfan Ddosbarthu ym Mharc Busnes Glanyrafon, ar gyrion y dref.

AMCANION

Y mae llawer o waith y Cyngor Llyfrau'n ymwneud â darparu gwasanaethau sylfaenol i'r fasnach gyhoeddi. Dyma'r prif swyddogaethau craidd:

- Dosbarthu grantiau i gynorthwyo cyhoeddi amrywiaeth o ddeunydd safonol yn y Gymraeg a'r Saesneg gan sicrhau bod y cynnyrch ar gael yn eang.

- Annog a chefnogi cyhoeddwyr Cymru i ddatblygu drwy hwyluso partneriaethau a chysylltiadau gyda Llywodraeth Cymru a chyrff celfyddydol eraill.

- Cynorthwyo a chefnogi awduron trwy ddarparu gwasanaethau a thrwy gynnig grantiau/comisiynau a sianelir trwy gyhoeddwyr.

- Hybu diddordeb mewn llyfrau Cymraeg a llyfrau Saesneg o ddiddordeb i Gymru, ynghyd â deunydd cyffelyb arall, trwy ddarparu gwybodaeth a thrwy raglen lawn o weithgarwch.

- Hybu'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru yn ei holl agweddau trwy ddarparu rhychwant o wasanaethau a thrwy gydgysylltu buddiannau awduron, cyhoeddwyr, llyfrwerthwyr a llyfrgelloedd.

GOFYNION A MANYLION I YMGEISWYR

Gwahoddir ceisiadau am nifer cyfyngedig o leoedd gwag ar un o is-bwyllgorau ymgynghorol y Cyngor:

- **Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi (Cymraeg)**
  Dyma'r Is-bwyllgor sy'n goruchwylio'r gwaith o ddyrannu grantiau ar gyfer cyhoeddi yn y Gymraeg gan ddarparu cefnogaeth ar gyfer llyfrau a chylchgronau, noddi awduron ac artistiaid gweledol, a chynnig arian craidd a grantiau marchnata i gyhoeddwyr. Mae'r aelodaeth bresennol yn cynnwys ystod eang o ddiddordebau gan gynnwys darllenwyr brwd, adolygwyr, llyfrgellwyr, academyddion, beirniaid, addysgwyr, hyrwyddwyr ac arbenigwyr ym maes llyfrau plant. Mae amrywiaeth yr Is-bwyllgor yn bwysig er mwyn cynnig y cyfeiriad priodol i holl weddau'r diwydiant. Mae'r Cyngor bob amser yn frwd i gynnal a datblygu'r amrywiaeth hwn, nid yn unig o ran diddordebau ac arbenigeddau, rhywedd a chynrychiolaeth ddaearyddol, ond hefyd o ran crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, hil, anabledd a chefndir cymdeithasol. Croesewir ceisiadau gan unrhyw un sy'n frwd dros gyhoeddi yn Gymraeg. Cynhelir cyfarfodydd yr Is-bwyllgor hwn trwy gyfrwng y Gymraeg.

- **Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi (Saesneg)**
  Dyma'r Is-bwyllgor sy'n goruchwylio'r gwaith o ddyrannu grantiau ar gyfer cyhoeddi yn Saesneg gan ddarparu cefnogaeth ar gyfer llyfrau a chylchgronau, noddi awduron a chynnig arian craidd a grantiau marchnata i gyhoeddwyr. Mae'r aelodaeth bresennol yn cynnwys ystod eang o ddiddordebau gan gynnwys darllenwyr brwd, adolygwyr, llyfrgellwyr, academyddion, beirniaid, addysgwyr, hyrwyddwyr ac arbenigwyr ym maes llyfrau plant. Mae amrywiaeth yr Is-bwyllgor yn bwysig er mwyn cynnig y cyfeiriad priodol i holl weddau'r diwydiant. Mae'r Cyngor bob amser yn frwd i gynnal a datblygu'r amrywiaeth hwn, nid yn unig o ran diddordebau ac arbenigeddau, rhywedd a chynrychiolaeth ddaearyddol, ond hefyd o ran crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, hil, anabledd a chefndir cymdeithasol. Croesewir ceisiadau gan unrhyw un sy'n frwd dros gyhoeddi yn Saesneg yng Nghymru. Cynhelir cyfarfodydd yr Is-bwyllgor hwn trwy gyfrwng y Saesneg.

- **Is-bwyllgor Hyrwyddo Darllen**
  Dyma'r Is-bwyllgor sy'n goruchwylio gwaith yr Adran Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen sydd â gofal am amrywiol gynlluniau hyrwyddo darllen. Mae'r aelodaeth bresennol yn cynnwys ystod eang o ddiddordebau gan gynnwys darllenwyr brwd, llyfrgellwyr, academyddion, addysgwyr, hyrwyddwyr ac arbenigwyr ym maes llyfrau plant. Mae amrywiaeth yr Is-bwyllgor yn bwysig er mwyn cynnig y cyfeiriad priodol i holl weddau'r diwydiant. Mae'r Cyngor bob amser yn frwd i gynnal a datblygu'r amrywiaeth hwn, nid yn unig o ran diddordebau ac arbenigeddau, rhywedd a chynrychiolaeth ddaearyddol, ond hefyd o ran crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, hil, anabledd a chefndir cymdeithasol. Croesewir ceisiadau gan unrhyw un sy'n frwd dros gyhoeddi yn Gymraeg. Cynhelir cyfarfodydd yr Is-bwyllgor hwn trwy gyfrwng y Gymraeg ond darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

Mae'r Cyngor yn awyddus i benodi unigolion a chanddynt syniadau ac egni a fydd yn gallu cyfrannu at waith hollbwysig yr is-bwyllgorau hyn. **Dylid nodi, fodd bynnag, mai un o'r prif ystyriaethau wrth ystyried y ceisiadau fydd yr angen i lenwi bylchau o ran profiad a sgiliau.**

Mae'r is-bwyllgorau yn cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn drwy wahanol ddulliau, ar Zoom ac wyneb yn wyneb yn Aberystwyth. Pan fydd cyfarfod wyneb yn wyneb mae dewis i ymuno drwy Zoom yn ogystal. Mae'r Is-bwyllgor Cymraeg yn cyfarfod tua chwe gwaith y flwyddyn a'r Is-bwyllgor Saesneg tua phedair gwaith y flwyddyn. Disgwylir i'r aelodau gynnig barn ar geisiadau grant a deuir ar eu gofyn rhwng cyfarfodydd am adroddiadau ar gyhoeddiadau rhai o'r gweisg ac am eu barn ar ambell bwnc. Mae'r Is-bwyllgor Hyrwyddo Darllen yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn a hynny ar Zoom. Penodir am gyfnod o dair neu bedair blynedd gyda phosibilrwydd o un tymor ychwanegol.

<u>Tâl</u>
Ad-delir aelodau am dreuliau ychwanegol yn unol ag arfer dda, ond nid yw'r aelodau yn derbyn taliadau eraill am eu cyfraniad. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai costau gofal neu golli incwm fod yn rhwystr i ymwneud â'r Cyngor Llyfrau i rai pobl. Rydym wrthi'n ystyried ffyrdd o gefnogi ymgeiswyr a fyddai, fel arall, efallai'n methu ag ystyried ymuno â ni.

<u>Cyfle Cyfartal</u>
Mae'r Cyngor yn awyddus bod ei bwyllgorau yn adlewyrchu Cymru yn ei holl amrywiaeth ac yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob cefndir, ac yn arbennig unigolion sydd, yn draddodiadol, wedi teimlo eu bod yn cael eu tangynrychioli yn y diwydiant. Dilynir egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored a bydd y penodi ar sail teilyngdod ac ar sail y bylchau sydd yn sgiliau a phrofiad yr Is-bwyllgor ar y pryd.

<u>Datgan Budd</u>
Wrth wneud y cais, dylai ymgeiswyr ddatgelu unrhyw fudd personol neu gyswllt busnes a all wrthdaro â'u cyfrifoldeb fel aelod o un o is-bwyllgorau ymgynghorol y Cyngor Llyfrau.

Diogelu Data

Noder y bydd manylion am aelodau is-bwyllgorau'r Cyngor yn cael eu cadw ar ffeil, a hynny'n unig ar gyfer dosbarthu gwybodaeth berthnasol i'r aelodau.

CEISIADAU

Os ydych yn credu bod y cymwysterau angenrheidiol gennych i fod yn aelod o un o is-bwyllgorau Cyngor Llyfrau Cymru, dylid anfon eich ffurflen gais at:

Y Prif Weithredwr, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2JB.

Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn ceisiadau yw **27 Medi 2024**.